427

6ed

# CAN

## Ar Ddefnyddioldeb y Gweithwyr yn Nghymru,

*A beth fyddai gwerth Cymru hebddynt hwy.*

Buddygol yn Nghyfarfod Cystadleuol y Workman's Hall, Mountain Ash, Nos Lun y Pasc, 1870.

Cenir ar y dôn *Belisle March.*

Trwy'ch cenad, frodyr gwych y gweithwyr,
Ar dir a thán y dón,
Sy'n gweithio'n galed oll heb gelu,
Rhyw lu yn Nghymru lon,
Ymdrechaf draethu i'r rhai trythyll,
Heb dwyll yn hybwyll hyn,
Mai trwy y gweithwyr, sy'n cael y gwaetha',
Maent hwy â'u cylla'n dŷn;
O! 'styriwch ar bob pryd,
A chofiwch hyn o hyd,
Chwi rai segur, sy'n mwynhau seigiau,
Da bethau yn y byd,
Mai trwy law'r gweithiwr sy'n dewr wthio,
Gan weithio yn ei wanc,

Mae'ch holl gysuron, ac yntau'r ffyddlon
Ar droion bron ar dranc:
Y gweithiwr yn ddigryd,
Sy'n hau a medi'r ŷd,
A'i gasglu gwed'yn yn ddiachwyn,
I'r bradyn yn ei bryd,
A'r gwr boneddig a wisg ei fenyg,
'Rhwn drig mewn gwlad neu dref,
Sy'n cael cynaliaeth heb amheuaeth,
Wr odiaeth trwyddo ef.

Y gweithwyr eto yn ddiatal,
Sy'n cynal heb nacâd,
Pob masnach wladol angenrheidiol
Mewn rheol er mawrhad;
Ni fyddai moddion gan wyr mawrion,
Na son am bethau sydd,
Ac ni cheid mwnau na glo yn unlle,
O dyllau i oleu dydd;
Trwy'u hymdrech hwy'n ddïau,
Ca llawer eu lleshau,
Cysuron bywyd hyfawl hefyd
O hyd sy'n amlhau;
Hwy ddwg ddefnyddiau o ddyfnderau
Mwngloddiau i'r goleu glân:
Pwy ond y gweithwyr sy'n eu coethi,
A'u toddi yn y tân?
Hwynt-hwy trwy ddirfawr gur
A'i gwnant yn fetel pur,
A thrwy law gadarn cyn hir yn haiarn,
Heb sarn, neu ddarn o ddûr;

Mae'r clod am gledrffyrdd trwy'n broydd ceinwyrdd
A myrdd o bethau mwy,
Heb unrhyw ddadl yn wir ddyledus,
Wyr hoenus iddynt hwy.

'Dyw'n gwlad heb fwnwyr glew a glowyr,
A gweithwyr, nemawr gwerth,
Sy'n glynu'n ffyddlon lle mae yn gyson,
Er cryn beryglon certh,
Hwy'n ddibryder, trwy hen wlad Gomer,
Yw maethder mawr a mân,
Nerth cymdeithasau a chrefyddau,
A gïau gwlad y gân;
Ni fyddai Cymru gain,
Fel rheol heb y rhai'n,
Ond anialwch, yn ddiddifyrwch,
A d'ryswch gwyllt a drain,
A'r holl drysorau sydd dan fynyddau
A fyddai yn ddifudd,
Gwrandewch, wyr tirion, heb eu tori,
Na'u codi i'r lan o'r cudd;
Ac heb y gweithwyr gwych
Mor drist y byddai'n drych,
Hen Walia fyddai, yn ddiamheu,
Heb nwyddau yn ei nych,
Dan gur yn ochain, heb Fwrdd Iechyd,
Yn domlyd fawlyd fan,
Heb ddw'r iachusol, a'r geri marwol,
Fel rheol ar ein rhan.

Hwynt-hwy yn ddiau yw agoriadau
Trysorau Cymru'n swm,

X20522 1091

Sy'n isel obry, mewn cuddig lety,
  Dan leni daear lwm;
Agorant gloiau holl stôr-deiau
  Mwngloddiau trwy ein gwlad,
Gan yru allan, trwy wir ewyllys,
  Ar frys ryw foddus fad;
    Hwynt-hwy yw'r halen pur,
    Wyr taer sy'n lleshau'r tir,
 A gwnant yn werthfawr y lleoedd gwrthun,
    Mae'n syn drwy lawer sir;
A thrwy y gweithwyr. ryw lu sy'n ddifyr,
  Oedd brysur iawn o'r bla'n,
Mae cyflawnderau o drysorau
  Mewn teiau, a moddion tân;
    'Rwy'n gwahodd pawb o'r bron,
    A glywo'r ganiad hon,
 I ochel trethu, llwytho a llethu,
    Hen weithwyr Cymru lon;
Hwy sydd yn llesu a chyfoethogi
  Pob teulu trwy ein tir,
Heb weithwyr drudwerth 'dyw Cymru ond anferth,
  Na nemawr werth yn wir.

GWALLTER BRYCHEINIOG.

